

# Cofnodi

## PWYLLGOR RHEOLI TROSOLWG A CHRAFFU

---

Dyddiad: 25 Hydref 2022

Amser: 10am

Lleoliad: Cyfarfod hybrid

Yn bresennol: Y Cynghorwyr P Hourahine (Cadeirydd), M Al-Nuaimi, M Evans, L James, C Baker- Westhead, B Davies, G Horton

Cyng J Mudd (Arweinydd), B Owen (Prif Swyddog Gweithredol), R Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer

Trawsnewid a Chorfforaethol), P Jones (Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd), S Jenkins (Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol), T McKim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid), P Flint (Partner Ymchwil Perfformiad a Busnes)

S Schanzer (Ymgynghorydd Craffu), L Thomas (Swyddog Cymorth Llywodraethu), E Mayger (Swyddog Cymorth Llywodraethu).

---

### 1. Ymddiheuriadau

Y Cyng. P Bright.

### 2. Datganiad o fuddiant

Dim.

### 3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Lleisiodd aelod bryder bod ei sylwadau ar bresenoldeb mewn cyfarfodydd gyda'r heddlu bob pythefnos wedi'u diwygio a gofynnodd am eglurhad ynghylch gyda phwy y dylai drafod hyn. Roedd yn dymuno cofnodi bod ei sylw yn cyfeirio'n benodol at sicrhau bod aelodau o'r gymuned wyn yn cael eu cynrychioli mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gymuned, a gofynnodd bod y cofnodion yn cael eu diwygio i ddatgan hyn.

- Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu nad oedd y cofnodion yn gofnod gair am air a'u bod ond bwriadu nodi'r prif sylwadau a chwestiynau ynghylch adroddiadau, a bod y recordiad ar gael i'r cyhoedd fel cofnod gair am air.
- Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n cael ei godi eto gyda'r Prif Weithredwr.

Penderfynwyd y byddai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi yn cael eu cytuno yn y cyfarfod nesaf ochr yn ochr â chofnodion y cyfarfod presennol.

#### 4. Adroddiad Hunanasesiad Lles Corfforaethol Blynyddol Drafft 2021-22

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Strategol drosolwg o'u meysydd gwasanaeth gan amlygu heriau a chyflawniadau.

##### Cwestiynau:

Teimlai aelod o'r pwyllgor y dylai'r adroddiad ddarparu gwybodaeth fanylach i drigolion Casnewydd ar fuddion cynlluniau partneriaeth fel Prifddinas-Ranbarthau Caerdydd a phartneriaeth Porth y Gorllewin. Gofynnodd yr aelod o'r pwyllgor beth oedd yn cael ei wneud i fod yn fwy rhagweithiol i wneud Canol y Ddinas yn fwy deniadol i fuddsoddwyr a dinasyddion.

- Hysbysodd yr Arweinydd y pwyllgor fod yr adroddiad yn drosolwg o berfformiad ar lefel uchel, ac adlewyrchir hyn yn lefel y manylder a gynhwyswyd. Fodd bynnag, hysbysodd yr Arweinydd y pwyllgor fod yna nifer o ffyrdd y mae gwybodaeth yn cael ei chyfleu i drigolion, gan gynnwys deunydd hyrwyddo, a chylchlythyr i drigolion y gallai aelodau hefyd ei lofnodi a oedd yn darparu diweddariadau.
- Tynnodd yr Arweinydd sylw at y ffaith bod Swyddogion wedi ymrwmo i sicrhau gwelliant yng Nghanol y Ddinas ac er bod trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt, mae cynlluniau strategol mawr yn gymhleth, yn cynnwys llawer o randdeiliaid, a bod angen gwneud cynnydd yn eu trefn. Dywedodd yr Arweinydd wrth y pwyllgor nad oes rhagor o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd oherwydd natur fasnachol sensitif y trafodaethau hyn.

Holodd y pwyllgor pam nad oedd y ffigurau cynnydd diweddaraf o ran ansawdd aer wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

- Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd fod oedi tra bod y ffigurau'n cael eu dilysu gan Lywodraeth Cymru ond y byddent yn mynd ar drywydd yr adborth hwn, a'r ffigurau mwyaf diweddar yn cael eu darparu i'r pwyllgor.

Roedd y pwyllgor yn falch o weld y ffigurau ar gyfer nifer y teithiau Teithio Llesol a gofynnodd sut y caiff hyn ei fesur, ac a oedd unrhyw gyfle i drigolion roi adborth sy'n llywio'r rhaglen o welliannau i rwydweithiau.

- Eglurodd Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd fod y defnydd yn cael ei fesur gan dechnoleg a osodwyd yn y fan a'r lle mewn lleoliadau ar draws seilwaith y ddinas. Gall y dechnoleg ganfod ac olrhain nifer y defnyddwyr, a hefyd nodi a yw defnyddwyr yn cerdded neu'n defnyddio beiciau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor fod mapiau'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Integredig ar gael i drigolion wneud sylwadau ar lwybrau a chynlluniau llwybrau.
- Tynnodd yr Arweinydd sylw at lwyddiant y llwybr ar draws Bryngaer Croes Trelech a oedd yn ganlyniad yn dilyn adborth gan drigolion, ac yn enghraifft wych o ymgysylltiad a chyfranogiad llwyddiannus gan drigolion.

Teimlai aelod o'r pwyllgor fod gormod o wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr adroddiad. Nododd yr aelod o'r pwyllgor fod angen dangos targedau yn yr adroddiad, gan y bydd hyn yn helpu i ddangos y cynnydd a wnaed. Gofynnodd yr aelod o'r pwyllgor hefyd faint o'r 20 ymrwymiad oedd wedi'u cwblhau a faint oedd ar y gweill, gan ei fod yn teimlo ei bod yn anodd asesu hyn

heb gynnwys y mesurau yn yr adroddiad. Gofynnodd yr aelod o'r pwyllgor beth oedd y Ganolfan Darganfod Treftadaeth.

- Eglurodd y Prif Swyddog Gweithredol mai'r ganolfan ymwelwyr yn y Bont Gludo fyddai'r Ganolfan Darganfod Treftadaeth unwaith y bydd wedi'i chwblhau. Cytunodd y Prif Swyddog Gweithredol y gellid diwygio hyn i fod yn gliriach, gan gynnwys y model canolbwynt a lloeren a fydd yn cynnwys y Ganolfan Ddarganfod fel y ffocws canolog.
- Eglurodd y Prif Swyddog Gweithredol fod y rhan fwyaf o'r ymrwymadau wedi'u cwblhau ac y byddai unrhyw rai sy'n weddill yn cael eu cario ymlaen.

Holodd y pwyllgor am statws Campws y Ddinas.

- Dywedodd y Prif Weithredwr fod cynnydd yn cael ei wneud a bod amserlenni yn gysylltiedig â ffactorau dibynnol cymhleth megis caniatâd cynllunio, cyllid gan Lywodraeth Cymru, a llofnodi prydles, felly byddai'r amserlenni'n gliriach pan fyddai rhai o'r camau hyn wedi'u cwblhau.

Nododd y pwyllgor fod y targed ynghylch dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd yn isel iawn ond ei fod wedi rhagori arno. Amlygodd y pwyllgor y ganran a roddwyd i ddangos nad oedd hyn yn rhoi cyd-destun a gofynnodd am gynnwys data penodol. Holodd y pwyllgor pa effaith benodol a gafodd y pandemig ar aelwydydd mewn perygl o fod yn ddigartref a sut y cawsant eu cefnogi.

- Hysbysodd yr Arweinydd y pwyllgor fod deddfwriaeth wedi newid yn gyflym iawn yn ystod y pandemig, a bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi llwyddo i ddarparu llety brys i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghasnewydd ar y pryd. Tynnodd yr Arweinydd sylw at effaith y cyfyngiadau symud ar densiynau mewn cartrefi sy'n cynyddu digartrefedd cudd. Dywedodd yr Arweinydd wrth y pwyllgor fod cynnydd sylweddol ledled Cymru yn nifer y landlordiaid yn y sector preifat a oedd yn cyhoeddi hysbysiadau troi allan pan ddaeth yr embargo ar droi allan i ben yn gynharach eleni. Ychwanegodd yr Arweinydd fod y rhagolwg o gydymffurfio â deddfwriaeth newydd a'r cynnydd mewn prisiau eiddo yn golygu bod llawer o landlordiaid preifat yn gwerthu eu heiddo, gan effeithio ar fynediad i'r math hwn o lety i Gyngor Dinas Casnewydd. Cydnabu'r Arweinydd y gwaith a wnaed gan staff i gefnogi teuluoedd trwy gydol y cyfnod heriol hwn.
- Amlygodd yr Arweinydd na ellid tybio bod eiddo gwag yn diwallu anghenion tai a bod yr hyn y gall y cyngor ei wneud i orfodi perchnogion preifat i ddod â'u heiddo yn ôl i ddefnydd yn gyfyngedig. Nododd yr Arweinydd fod rhai mesurau wedi eu rhoi ar waith megis cynnydd yn y dreth gyngor, a thrwy sicrhau bod cyllid ar gael i berchnogion preifat i wella eiddo o dan rai amgylchiadau. Nododd yr Arweinydd hefyd fod y cyngor yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Diolchodd y pwyllgor i'r swyddogion am fynychu.

### **Sylwadau ac argymhellion:**

- Roedd y pwyllgor yn cydnabod yr heriau ac yn gwerthfawrogi gwaith caled y staff.
- Teimlai'r pwyllgor y gellid cynnwys mwy o wybodaeth am waith partneriaeth yn yr adroddiad i bwysleisio'r manteision y mae'r partneriaethau hyn yn eu rhoi i Gyngor Dinas Casnewydd.

- Er bod safbwyntiau aelodau'r pwyllgor yn gwrthdaro ynghylch a oedd yr adroddiad yn cynnwys gormod o wybodaeth neu'n brin o wybodaeth, teimlai'r pwyllgor yn gyffredinol y byddai mwy o ddata i roi unrhyw ganrannau a roddir yn eu cyd-destun yn ddefnyddiol.
- Teimlai'r pwyllgor fod angen mwy o eglurder o fewn yr adroddiad ynghylch nifer yr anheddau ychwanegol a grëwyd o ganlyniad i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd.
- Teimlai'r pwyllgor y gellid egluro'r cyfeiriadau at y Safle Darganfod Treftadaeth.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am y canlynol:
  - Yr Adroddiad Monitro Ansawdd Aer Blynyddol mwyaf diweddar
  - Grwpiau gweithredu lleol yn ymwneud ag ysgolion
  - Y 38 o fusnesau lleol a dderbyniodd arian grant.
  - Yr arian a neilltuwyd ar gyfer prosiectau adfywio.

## **5. Adroddiad Blynyddol Craffu 21-22 – Diweddariad Llafar**

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democraataidd ac Etholiadol ddiweddariad llafar ar Adroddiad Blynyddol Craffu 2021-22.

Cytunodd y pwyllgor i ddosbarthu'r adroddiad iddynt drwy e-bost ac i wneud sylwadau ac argymhellion yn uniongyrchol i awdur yr adroddiad.

## **6. Casgliadau adroddiadau'r pwyllgor**

Roedd y pwyllgor yn dymuno i sylwadau ac argymhellion gael eu cofnodi ar ddiwedd yr eitem berthnasol ar yr agenda yn hytrach nag ar ddiwedd y cofnodion.

## **7. Adroddiadau'r Ymgynghorydd Craffu**

Cyflwynodd y Cynghorydd Craffu y Daflen Weithredu a'r Flaenraglen Waith.

## **8. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

2 Rhagfyr 2022 am 10am.

## **9. Live Event**

[Gweld y recordiad yma.](#)